Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# Polisi Derbyn

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

## CYNNWYS


1. Diben a chwmpas y polisi ..... 3

2. Nodau'r Brifysgol ..... 3

   2.1 Derbyniadau teg ..... 3

3. Cydymffurfio â chodau a rheoliadau ..... 3

4. Polisïau, gweithdrefnau a rheoliadau cysylltiedig ..... 4

5. Cyfrifoldeb am dderbyn myfyrwyr ac am adolygu'r polisi ..... 4

6. Cytundebau dilyniant/trosglwyddo ..... 5

7. Partneriaethau cydweithredol gyda darparwyr eraill ..... 5

8. Defnydd o gyfryngwyr/asiantau allanol ..... 6

9. Ymholiadau a gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i ymgeiswyr ..... 6

10. Gohebiaeth rhwng y Brifysgol a darpar fyfyrwyr o Gymru ..... 7

11. Ffioedd a Chyllid ..... 7

    11.1 Statws ffioedd ..... 7

    11.2 Talu Ffioedd ..... 8

12. Proses ymgeisio ..... 8

    12.1 Gwneud cais ar-lein yn www.ucas.com ..... 8

    Codau'r Sefydliad ..... 9

    12.2 Ceisiadau i Raglenni nad ydynt yn defnyddio UCAS (Ymgeiswyr Cartref yn unig) ..... 9

    12.3 Ymgeiswyr Rhyngwladol ..... 9

    12.4 Myfyrwyr dramor sy'n dod yma i astudio / cyfnewid ..... 9

    12.5 Ymgeiswyr rhan amser ..... 9

    12.6 Ymgeiswyr ôl-raddedig ..... 10

    Ymgeiswyr Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) ..... 10

    Ymgeiswyr ymchwil ôl-raddedig ..... 10

    12.7 Prentisiaethau ..... 10

    12.8 Dysgu Seiliedig ar Waith ..... 10

    12.9 Micro-gredydau ..... 10

13. Gwybodaeth gyffredinol am y broses ymgeisio ..... 10

14. Gofynion mynediad ..... 11

    14.1 Tystlythyrau ..... 11

15. Y defnydd o wybodaeth gyd-destunol yn y broses dderbyn ..... 11

16. Cyfweliadau academaidd, clyweliadau, profion derbyn a phortffolios ..... 12

17. Rhaglenni sy'n gofyn am ddatgeliad manwl (Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd) ....... 12

18. Penderfyniadau, Cynigion ac Adborth ........ 13

19. Cadarnhau a Chlirio ........ 14

19.1 Bodloni amodau cynigion ........ 14

19.2 Clirio ar gyfer Ymgeiswyr Cartref ........ 14

20. Ceisiadau am Gydnabod Dysgu Tystysgrifedig Blaenorol a Chydnabod Dysgu Blaenorol drwy Brofiad ........ 14

21. Myfyrwyr â phrofiad o ofal ........ 14

22. Dan 18 oed ........ 15

23. Oedolion Agored i Niwed ........ 15

24. Pobl Ifanc sy'n Ofalwyr ........ 15

25. Aelodau'r Lluoedd Arfog ........ 16

26. Ffoaduriaid a cheiswyr lloches ........ 16

27. Ymgeiswyr sydd ag anghenion cymorth ychwanegol ........ 16

28. Ymgeiswyr i raglenni astudio achrededig (gan gynnwys y rhai sy'n arwain at statws cymwysedig neu sy'n cael eu hachredu gan Gorff Proffesiynol, Statudol neu Reoleiddiol).. 17

29. Ymgeiswyr sy'n datgan arestiadau, cyhuddiadau neu euogfarnau ynghylch tramgwyddau troseddol ........ 18

30. Ymgeiswyr Rhyngwladol ........ 19

30.1 Gofynion academaidd ........ 20

30.2 Gofynion Iaith Saesneg ........ 20

30.3 Cyfweliadau derbyn ........ 20

30.4 Gwybodaeth ariannol ........ 21

30.5 Cadarnhad Derbyn i Astudio (CAS) ........ 21

31. Newidiadau i raglenni a dirwyn rhaglenni i ben ........ 21

32. Cael eich derbyn yn hwyr ar raglen astudio ........ 22

33. Mynediad Gohiriedig ........ 22

34. Tynnu'n ôl ac ail-dderbyn ........ 23

35. Gwirio dogfennau a thwyll ........ 23

36. Y weithdrefn apeliadau a chwynion ........ 24

37. Defnydd y Brifysgol o ddata ymgeiswyr ........ 24

## 1. Diben a chwmpas y polisi

Mae’r Polisi Derbyn (‘y polisi’) yn amlinellu nodau’r Brifysgol ar gyfer derbyn myfyrwyr ac mae’n disgrifio’r egwyddorion a’r prosesau a ddefnyddir i ddewis a derbyn myfyrwyr newydd ar raglenni astudio a addysgir a graddau ymchwil.

Dim ond darpariaeth sydd â chredydau sy’n cael sylw yn y polisi.

Diben y polisi yw hysbysu ymgeiswyr a staff, ac mae’n disodli unrhyw bolisi derbyn a gymeradwywyd yn flaenorol.

Mae egwyddorion y polisi, fel y nodwyd yn adran 2 isod, hefyd yn berthnasol i sefydliadau partner cydweithredol y Brifysgol. Ceir rhestr gyfredol o sefydliadau o’r fath yn www.uwtsd.ac.uk/cy/cofrestr-o-bartneriaethau-cydweithredol.

## 2. Nodau’r Brifysgol

Mae’r polisi a’r gweithdrefnau’n cefnogi golau a nodau’r Brifysgol fel yr amlinellir yn ei chenhadaeth, gweledigaeth, gwerthoedd a nodweddion diffiniol, a gyhoeddwyd yma: www.uwtsd.ac.uk/cy/amdanom/cenhadaeth-gweledigaeth.

Mae’r Brifysgol yn ymrwymo i ddarparu gwasanaeth derbyn teg, cynhwysol a phroffesiynol.

### 2.1 Derbyniadau teg

Caiff y polisi hwn ei danategu gan ymrwymiad y Brifysgol i’r egwyddorion a ganlyn:

- Darparu gwybodaeth gynhwysfawr, gywir a hygyrch am y broses dderbyn i ddarpar ymgeiswyr er mwyn iddynt wneud dewisiadau gwybodus ynghylch rhaglenni astudio a'r Brifysgol a chael dealltwriaeth o sut y gellir gwireddu eu dyheadau i’r dyfodol ar ôl graddio;
- Gweithredu gwasanaeth derbyn teg, tryloyw ac effeithiol, sydd â pholisïau a phrosesau a ddyluniwyd i amddiffyn a blaenoriaethu buddiannau ymgeiswyr, lleihau’r rhwystrau rhag ymuno a mynd i’r afael ag anghydraddoldebau;
- Sicrhau gweithredu’r polisi’n gyson ar draws y Brifysgol;
- Cyflawni’r deilliannau gorau posibl i ymgeiswyr, gan sicrhau bod gan ymgeiswyr sy’n cael eu derbyn y potensial i gyflawni’r dyfarniad bwriedig a’u bod yn elwa’n llawn o’u profiad yn fyfyrwyr;
- Annog ceisiadau o’r ystod ehangaf o gefndiroedd addysgol, cymdeithasol a diwylliannol.

## 3. Cydymffurfio â chodau a rheoliadau

Mae’r polisi a’r gweithdrefnau cysylltiedig yn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 2018, Y Rheoliad Cyffredinol ar Reoli Data (GDPR) a deddfwriaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth perthnasol sy’n effeithio ar dderbyn myfyrwyr, ac yn ystyried arfer gorau’r sector lle bo’n berthnasol, gan gynnwys:

- Cod Ymarfer Derbyniadau Teg Universities UK (www.universitiesuk.ac.uk/what-we-do/policy-and-research/publications/fair-admissions-code-practice) y mae'r Brifysgol wedi’i lofnodi;
- Cod Ansawdd yr ASA ar gyfer Addysg Uwch 2024 (www.qaa.ac.uk/cy/y-cod-ansawdd) i gynnwys cyngor ac arweiniad y Cod ar dderbyniadau, recriwtio ac ehangu mynediad;

- Canllaw a llawlyfrau UCAS ar gyfer sefydliadau;
- Gofynion cyrff proffesiynol achredu a chyrff SA perthnasol;
- Gofynion UKVI, www.gov.uk/government/organisations/uk-visas-and-immigration;
- Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017, www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2017/90/contents/made;
- Canllawiau gan Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (OIA);
- Canllawiau gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA).

## 4. Polisïau, gweithdrefnau a rheoliadau cysylltiedig

Mae'r polisi'n cydymffurfio â rheolau a rheoliadau academaidd y Brifysgol fel y'i nodir yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd (LIAA). Caiff cynnwys y LIAA ei adolygu a'i ddiweddaru'n ôl yr angen yn flynyddol a chaiff ei gyhoeddi yn www.uwtsd.ac.uk/cy/llawlyfr-ansawdd-academaidd.

Darperir manylion am dderbyniadau i raglenni astudio ymchwil yng Nghod Ymarfer y Brifysgol ar gyfer Graddau Ymchwil, a gyhoeddir yn: www.uwtsd.ac.uk/cy/llawlyfr-ansawdd-academaidd.

Dylid darllen y Polisi Derbyn ar y cyd â 'Cytundeb Myfyrwyr' y Brifysgol sy'n berthnasol o'r pwynt hwnnw y bydd ymgeisydd yn derbyn cynnig o le, ac mae'r 'Datganiad Polisi ar Dderbyn Myfyrwyr Anabl' ar gael yn:
www.uwtsd.ac.uk/cy/amdanom/llywodraethu-rheolaeth/strategaethau-pholisiau/y-polisi-derbyn-thelerau-ac-amodau-i.

Gellir dod o hyd i fanylion am recriwtio a yrrir gan asiant a Pholisi Rheoli Asiantau'r Brifysgol yn: www.uwtsd.ac.uk/cy/cais/ceisiadau-rhyngwladol/gwneud-cais-trwy-asiant-israddedig.

Ceir y 'Polisi Newid Enw Ymgeisydd a Myfyriwr' yn:
www.uwtsd.ac.uk/cy/amdanom/llywodraethu-rheolaeth/strategaethau-pholisiau.

Mae gan y Brifysgol Bolisi Diogelu a gweithdrefnau sy'n ymwneud â gofalu am fyfyrwyr o dan 18 oed, sydd ar gael yn www.uwtsd.ac.uk/cy/llawlyfr-ansawdd-academaidd.

Ceir y broses ar gyfer cydnabod dysgu ardystiedig a thrwy brofiadau blaenorol yn y Polisi Cydnabod Dysgu Blaenorol (RPL) sydd ar gael yn www.uwtsd.ac.uk/cy/llawlyfr-ansawdd-academaidd.

Rhoddir gwybod i ymgeiswyr aflwyddiannus y gallant ofyn am adborth. Ceir rhagor o wybodaeth yn y Polisi a Gweithdrefnau ar gyfer Adborth Derbyniadau, Apeliadau a Chwynion, sydd ar gael yn: www.uwtsd.ac.uk/cy/amdanom/llywodraethu-rheolaeth/strategaethau-pholisiau/y-polisi-derbyn-thelerau-ac-amodau-i.

Mae'r Polisi Derbyn yn cydymffurfio â gofynion cyrff allanol perthnasol.

## 5. Cyfrifoldeb am dderbyn myfyrwyr ac am adolygu'r polisi

Senedd y Brifysgol sy'n gyfrifol am sicrhau bod gan y Brifysgol reoliadau, polisïau a gweithdrefnau priodol ar gyfer derbyn myfyrwyr, a'i bod yn eu defnyddio. Rhoddir cyngor i'r Senedd ar y materion gan ei is-bwyllgorau perthnasol.

Caiff y polisi hwn ac unrhyw weithdrefnau cysylltiedig eu hadolygu'n flynyddol gan y Senedd ac fe ellir hefyd eu hadolygu yn dilyn datblygiadau cenedlaethol neu ryngwladol sy'n effeithio ar dderbyniadau prifysgolion yn fwy cyffredinol.

Yr Adran Farchnata, Recriwtio a Chyfathrebu sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am y broses dderbyn ar gyfer myfyrwyr cartref. Y Pennaeth Recriwtio Myfyrwyr ac Ehangu Mynediad sy'n goruchwylio'r staff derbyn dynodedig sy'n prosesu ceisiadau gan ymgeiswyr y DU.Y Pro Is-Ganghellor (Rhyngwladol) sy'n goruchwylio'r polisïau derbyn sy'n ymwneud â myfyrwyr rhyngwladol a hefyd y staff sy'n prosesu ceisiadau rhyngwladol. Pennaeth Gweithredol Partneriaethau Asiantau, Recriwtio a Derbyn Myfyrwyr sy'n goruchwylio'r polisïau derbyn sy'n gysylltiedig ag ymgeiswyr Cartref sy'n gwneud cais uniongyrchol neu drwy asiantaethau recriwtio i Gampws Llundain a Champws Birmingham yn ogystal â recriwtio myfyrwyr trwy asiantaethau yng Nghymru.

Gwneir penderfyniadau ar dderbyniadau ar ran y Brifysgol gan staff academaidd perthnasol neu gan staff derbyn dynodedig.

Mae pob Cyfadran Academaidd yn y Brifysgol yn gyfrifol am benodi unigolion cymwys i oruchwylio'r broses dderbyn yn y Gyfadran ac i wneud penderfyniadau am dderbyniadau lle bo raid ar ran y Brifysgol. Fer arfer, ar gyfer graddau ymchwil, Rheolwr Graddau Ymchwil Gyfadran fydd hyn.

Rhaid i'r Gyfadran sicrhau bod unigolion yn deall a chefnogi nodau, egwyddorion a gweithdrefnau derbyn y Brifysgol. Disgwylir iddynt weithio'n agos gyda staff derbyn dynodedig y Brifysgol sy'n prosesu ceisiadau'n ganolog.

Darperir sesiynau hyfforddi cysylltiedig â derbyniadau drwy gydol y flwyddyn i staff sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau derbyn. Mae'r hyfforddiant hwn wedi ei gydlynu gan y Pennaeth Datblygu Academaidd.

## 6. Cytundebau dilyniant/trosglwyddo

Ar ddisgresiwn y Brifysgol, gellir cyflwyno cais i raglen astudio yn ddiweddarach yn hytrach nag ar ddechrau rhaglen. Fel arfer, bydd hyn yn berthnasol i fyfyrwyr sy'n dechrau ail neu drydydd cam rhaglen e.e. ar lefel 5 neu 6 gradd Anrhydedd neu i Ran 2 rhaglen Feistr. Gellir caniatáu 'mynediad uniongyrchol' neu 'statws credyd uwch' naill ai ar sail cais unigol (gan gynnwys cais Cydnabod Dysgu Blaenorol (RPL) unigol) neu ar sail cytundeb trosglwyddo. Yn y ddwy achos, rhaid i'r Brifysgol gydnabod a gwobrwyo credyd am ddysgu blaenorol ardystiedig neu drwy brofiadau'r myfyriwr trwy'r broses RPL. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y Polisi Cydnabod Dysgu Blaenorol.

Mae'r penderfyniad terfynol i ganiatáu mynediad uniongyrchol neu statws credyd uwch yn amodol ar natur y rhaglen a pholisïau'r Gyfadran berthnasol.

Trosglwyddo yw'r weithdrefn a ddefnyddir wrth wneud cytundeb gyda sefydliad penodol sy'n gwarantu mynediad i raglenni penodol PCYDDS. Amlinellir manylion amodau mynediad mewn Cytundeb Trosglwyddo.

## 7. Partneriaethau cydweithredol gyda darparwyr eraill

Caiff ceisiadau i astudio ar rai rhaglenni PCYDDS mewn sefydliadau partner cydweithredol eu derbyn a'u prosesu gan y sefydliadau partner. Disgwylir i sefydliadau partner gadw at yr egwyddorion a nodir yn 2.1 a phennu'r manylion gweithredol drostyn nhw eu hunain yng nghyd-destun eu strwythurau a'u systemau eu hunain. Disgwylir i bolisïau derbyn sefydliadau partner gymryd cyfrifoldeb llawn a chywir o'r prif ddeddfwriaethau, gan gynnwys, mewn perthynas ag euogfarnau troseddol sy'n gyson â Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol y DU, cyswllt gyda phlant, pobl ifanc neu oedolion agored i niwed

(gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) neu gyfwerth), gofynion fisa a sicrhau mai dim ond gwybodaeth briodol a gesglir gan ymgeiswyr. Ceir manylion sefydliadau mae gan y brifysgol bartneriaeth gydweithredol gyda nhw yn www.uwtsd.ac.uk/cy/cofrestr-o-bartneriaethau-cydweithredol.

Mae partneriaid cydweithredol yn darparu cyngor ac arweiniad cyn mynediad a phwynt ymgeisio a hefyd yn darparu gwybodaeth a deunydd marchnata a gymeradwywyd gan y Brifysgol. Caiff gofynion mynediad eu cymeradwyo adeg dilysu rhaglenni ac mae partneriaid cydweithredol yn gyfrifol am ddarparu gwybodaeth glir, gywir a thryloyw am y rhaglenni, sy'n briodol i anghenion darpar ymgeiswyr, mewn cyhoeddiadau mewnol ac allanol.

Mae partneriaid cydweithredol yn gyfrifol am unrhyw ofynion i ymgeiswyr fynychu cyfweliad neu glyweliad academaidd, cynnal prawf derbyn neu gyflwyno portffolio.

Disgwylir i bartneriaid cydweithredol yng Nghymru ddefnyddio'r gofynion ar gyfer gohebiaeth â darpar fyfyrwyr o Gymru a amlinellir yn adran 10.

Oni nodir yn wahanol yn eu Cytundeb â'r Brifysgol, mae partneriaid cydweithredol yn gyfrifol am gasglu ffioedd gan eu myfyrwyr. Disgwylir i ymgeiswyr partner cydweithredol, wrth dderbyn cynnig o le, gytuno i dderbyn cyfrifoldeb am dalu ffioedd dysgu ac unrhyw daliadau eraill a allai ddod i'w rhan wrth astudio.

## 8. Defnydd o gyfryngwyr/asiantau allanol

Mae gan y Brifysgol gytundebau ffurfiol gyda llawer o sefydliadau ar draws y byd ac mewn llawer o wledydd, gan gynnwys o fewn y DU. Mae'r Brifysgol wedi penodi cynrychiolwyr/asiantau lleol sy'n gallu cynnig cyngor, gwybodaeth a chymorth gyda cheisiadau gan ddarpar fyfyrwyr cartref a rhyngwladol.

Rhaid i asiantau penodedig weithredu yn unol â'r egwyddorion a nodir yn adran 2.1.

Mae Polisi Rheoli Asiantau'r Brifysgol ar gael yn: www.uwtsd.ac.uk/cy/cais/ceisiadau-rhyngwladol/gwneud-cais-trwy-asiant-israddedig.

## 9. Ymholiadau a gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i ymgeiswyr

Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod gwybodaeth am ei rhaglenni ar gael yn ddwyieithog (yn y Gymraeg a Saesneg) trwy wahanol sianeli'r cyfryngau, gan gynnwys ei gwefan, platfformau cyfryngau cymdeithasol, prosbectysau a deunyddiau recriwtio eraill.

Gall ystod o wahanol adrannau proffesiynol yn y Brifysgol ddarparu cyngor ac arweiniad cyn dechrau ac adeg gwneud cais a dechrau i ymgeiswyr rhyngwladol. Gall Asiantau Recriwtio penodedig hefyd darparu gwybodaeth a deunydd marchnata a gymeradwyir gan y Brifysgol.

Nod y Brifysgol yw ymateb i ymholiadau sy'n gysylltiedig â derbyniadau gan ddarpar fyfyrwyr o fewn 10 diwrnod gwaith o'u derbyn. Mae'r Brifysgol yn cydnabod pwysigrwydd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ymgeiswyr a'i nod yw rhoi diweddariadau cysylltiedig â derbyniadau ar adegau allweddol yn ystod y broses dderbyn. Anfonir ystod eang o ohebiaeth at ymgeiswyr i ymgeiswyr, trwy'r e-bost a phorth ymgeiswyr MyTSD, gan gynnwys y canlynol:

- Cydnabod derbyn cais;
- Cadarnhad o'r cynnig am le
- Y Cytundeb Myfyrwyr, a fydd yn berthnasol pan fydd ymgeisydd yn derbyn cynnig;

- Cadarnhad o fodloni telerau unrhyw gynnig am le;
- Y Cytundeb Myfyrwyr, a fydd yn berthnasol pan fydd ymgeisydd yn derbyn cynnig;
- Gwybodaeth ragarweiniol a gwybodaeth gofrestru.

Yn ychwanegol at yr uchod, gall ymgeiswyr dderbyn gwahoddiad i ymweld â champws neu ddod am gyfweliad yn ogystal â gwybodaeth benodol am y rhaglen. Gall Cyfadrannau ofyn i ymgeiswyr fynychu sesiynau derbyn gorfodol ychwanegol, yn enwedig yn achos rhaglenni mynediad uniongyrchol.

Gwahoddir ymgeiswyr i lawrlwytho ap 'Hwb Y Drindod Dewi Sant' sy'n rhoi gwybodaeth allweddol iddynt am y Brifysgol a'u rhaglen astudio. Mae fersiwn myfyriwr o'r ap ar gael ar ôl cofrestru.

## 10. Gohebiaeth rhwng y Brifysgol a darpar fyfyrwyr o Gymru

Anfonir gohebiaeth gan y Brifysgol at ddarpar fyfyrwyr o Gymru yn ddwyieithog, a chaiff y fersiynau Cymraeg a Saesneg eu trin yn gyfartal. Bydd gohebiaeth a dderbynnir gan ddarpar fyfyrwyr trwy gyfrwng y Gymraeg yn derbyn ymateb yn y Gymraeg. Mae'r Brifysgol yn cadw cofnod o ymgeiswyr sydd wedi nodi yr hoffent dderbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Lle bydd cwrs yn gofyn i ymgeiswyr ddod am gyfweliad, cynigir cynnal y cyfweliad trwy gyfrwng y Gymraeg i ymgeiswyr sy'n medru'r Gymraeg. Os nad yw'r Tiwtor Derbyn yn siarad Cymraeg, rhaid iddynt ofyn i gydweithiwr sy'n siarad Cymraeg gysylltu â'r ymgeiswyr cyn, yn ystod ac ar ôl unrhyw gyfweliad a drefnwyd gan y Brifysgol. Os bydd angen gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn ystod y cyfweliad, caiff yr ymgeisydd ei hysbysu am hyn. Mae'n orfodol bod y Brifysgol, yn unol â Safonau'r Gymraeg, yn darparu profiad cadarnhaol i'r holl ddarpar fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith pa un ai ydynt yn dymuno astudio trwy gyfrwng y Gymraeg neu beidio.

Mae Safonau'r Gymraeg ar gyfer y Brifysgol ar gael yn:
www.uwtsd.ac.uk/cy/amdanom/llywodraethu-rheolaeth/safonaur-iaith-gymraeg.

## 11. Ffioedd a Chyllid

### 11.1 Statws ffioedd

Mae deddfwriaeth Llywodraeth y DU yn caniatáu i sefydliadau addysgol a ariennir yn gyhoeddus i godi ffioedd hyfforddi ar ddwy lefel; ffi myfyrwyr 'cartref' is a ffi myfyrwyr tramor neu 'rhyngwladol' uwch. Mae'r Brifysgol yn codi ffioedd ar wahanol lefelau yn ôl pa un ai yw statws ffioedd ymgeisydd yn cael ei ystyried yn un Cartref neu Ryngwladol. Er mwyn cael talu ffi myfyrwyr 'cartref' is, rhaid i ymgeisydd fodloni rhai gofynion penodol o ran eu man preswyl a statws mewnfudo. Wrth asesu statws ffioedd ymgeisydd, mae'r Brifysgol yn dilyn y canllawiau a ddarperir gan UKCISA: www.ukcisa.org.uk/student-advice/fees/full-list-of-categories-for-he-in-wales.

Os nad yw staff derbyn y Brifysgol yn gallu gwneud penderfyniad am statws ffioedd ymgeisydd drwy ddefnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd ar y ffurflen gais, byddant yn cysylltu â'r ymgeisydd am ragor o wybodaeth a lle bydd rhaid, byddant yn gofyn i'r ymgeisydd gwblhau Ffurflen Asesu Ffioedd. Nid yw asesiad o statws ffioedd y Brifysgol yn cael unrhyw ddylanwad ar p'un a yw ymgeisydd yn gymwys i dderbyn cyllid gan Gyllid Myfyrwyr.

### 11.2 Talu Ffioedd

Llywodraethir uchafswm ffioedd dysgu yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru ar gyfer myfyrwyr israddedig (IR) cartref amser llawn (ALl) (gan gynnwys TAR). Y ffi uchaf ar gyfer y myfyrwyr

hyn yw £9,790 y flwyddyn. Codir y ffi uchaf y gellir ei chodi ar fyfyrwyr sy'n parhau ac a ddechreuodd raglen astudio newydd yn 2025/26 a myfyrwyr newydd sy'n dechrau ar raglen astudio yn 2026/27 a thu hwnt.

Gall y Brifysgol gynyddu ffioedd dysgu Myfyrwyr Israddedig Cartref amser llawn yn flynyddol yn unol ag unrhyw adolygiad i'r uchafswm ffioedd dysgu a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.

Bydd y Brifysgol yn hysbysu'r holl ymgeiswyr cartref a myfyrwyr o lefelau ffioedd ac unrhyw gynnydd am flynyddoedd olynol o astudio cyn gynted ag y derbynnir cadarnhad gan Lywodraeth Cymru a chymeradwyaeth gan Medr. Cysylltir ag ymgeiswyr yr effeithir arnynt drwy e-bost. Cyhoeddir diweddariadau i wybodaeth ffioedd dysgu ar wefan y Brifysgol lle caiff ymgeiswyr a myfyrwyr eu cyfeirio trwy MyTSD, ymgeisydd y Brifysgol a phorth cofrestru. Caiff diweddariadau i lefelau ffioedd eu harddangos ar wefan UCAS a phorth cyllid myfyrwyr y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr (SLC).

Drwy dderbyn cynnig am le, mae ymgeiswyr yn cytuno i dderbyn cyfrifoldeb dros dalu ffioedd dysgu ac unrhyw lety neu ffioedd eraill allai godi wrth astudio yn y Brifysgol.

Os na fydd myfyrwyr yn talu'r ffioedd pan ddônt yn ddyledus, ac os byddant yn methu gwneud trefniadau boddhaol i dalu unrhyw ddyledion sy'n weddill, bydd y Brifysgol yn gweithredu gweithdrefnau priodol. Bydd hyn yn golygu y gall y myfyriwr gael ei dynnu'n ôl o'i raglen astudio, efallai na chaniateir iddo gofrestru ar gyfer tymhorau dilynol, ac ni chaiff symud ymlaen i'r flwyddyn astudio nesaf, ennill dyfarniad na graddio.

Pan fydd unrhyw ddyled yn weddill, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i gymryd camau pellach i adennill y ddyled, a all gynnwys dechrau achosion cyfreithiol.

Mae rhagor o wybodaeth am ffioedd a chyllid ar gael yn: [www.uwtsd.ac.uk/cy/astudio/ffioedd-chyllid](www.uwtsd.ac.uk/cy/astudio/ffioedd-chyllid).

## 12. Proses ymgeisio

### 12.1 Gwneud cais ar-lein yn www.ucas.com

Fel arfer, mae'r holl geisiadau gan ymgeiswyr Cartref i astudio am raglen radd israddedig lawn amser, Diploma neu Dystysgrif Genedlaethol Uwch neu Dystysgrif Ôl-raddedig mewn Addysg (TAR) yn y Brifysgol yn cael eu gwneud drwy UCAS gan ddefnyddio system ymgeisio ar-lein.

Bydd UCAS yn dechrau prosesu ceisiadau ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd o ddechrau mis Medi.

Mae dyddiad terfyn ceisiadau drwy UCAS ar gyfer pob un o raglenni israddedig llawn amser PCYDDS ar gyfer ystyriaeth gyfartal. Gellir dod o hyd i ddyddiadau allweddol ar gylch ymgeisio UCAS yma.

Cynghorir ymgeiswyr i gyflwyno eu cais i UCAS cyn y dyddiad terfyn penodedig; fodd bynnag gallant wneud cais ar ôl y dyddiad hwnnw os oes lleoedd gwag yn dal i fod ar gael gan y Brifysgol ar gyfer y rhaglen(ni) maent wedi'i dewis. Gall ymgeiswyr chwilio am leoedd gwag ar wefan UCAS.

**Codau'r Sefydliad**

**T80** - Caerfyrddin, Abertawe, Caerdydd, Birmingham a Llundain
**C22** - Coleg Sir Gâr

### 12.2 Ceisiadau i Raglenni nad ydynt yn defnyddio UCAS (Ymgeiswyr Cartref yn unig)

Mae'r Brifysgol yn cynnig nifer o raglenni ar lefel israddedig a rhan fwyaf ei rhaglenni ôl-raddedig, gan gynnwys graddau ymchwil ôl-raddedig, trwy fynediad uniongyrchol.

Mae pob rhaglen mynediad uniongyrchol PCYDDS yn cynnwys rhai camau ychwanegol o'r broses dderbyn, sy'n gallu cynnwys profion ysgrifenedig, diwrnodau agored neu gyfweliadau. Gall y camau ychwanegol hyn ein helpu i wneud penderfyniad academaidd ynghylch p'un a oes gan ymgeisydd y potensial i gwblhau'n llwyddiannus y rhaglen maent wedi gwneud cais iddi. Lle bo'n berthnasol, bydd perfformiad blaenorol ar lefel addysg uwch yn cael ei ystyried. Ceir manylion pellach y broses ymgeisio benodol ar gyfer rhaglenni unigol ar dudalennau rhaglen-benodol gwefan PCYDDS.

Dylai darpar ymgeiswyr ar gyfer rhaglenni mynediad uniongyrchol gwblhau'r ffurflen gais sydd ar gael yn yr adran 'Sut i Wneud Cais' ar wefan y Brifysgol: www.uwtsd.ac.uk/cy/ymgeisio-chyllid/sut-i-wneud-cais. Gellir dod o hyd i ganllawiau ar sut i wneud cais yma hefyd.

### 12.3 Ymgeiswyr Rhyngwladol

Mae unigolion sy'n cael eu hystyried yn fyfyrwyr Rhyngwladol at ddibenion pennu ffioedd, yn gwneud cais i'r Brifysgol ar-lein yn annibynnol, ond am y rhai y mae eu hysgol neu goleg wedi cofrestru gydag UCAS. Mae cyngor ar gael gan swyddfeydd y Cyngor Prydeinig a chanolfannau eraill tramor, a gall fod ar gael gan ysgol neu goleg yr ymgeisydd.

### 12.4 Myfyrwyr dramor sy'n dod yma i astudio / cyfnewid

Ar gyfer myfyrwyr cyfnewid, mae'r Brifysgol yn gofyn am enwebiad gan ei phartneriaid tramor ar gyfer pob myfyriwr sy'n dewis PCYDDS. Rhaid i bartneriaid anfon manylion myfyrwyr a enwebwyd i Uned Recriwtio Rhyngwladol y Brifysgol gan gynnwys enw llawn y myfyriwr, eu pwnc astudio cyfredol a'r maes pwnc arfaethedig yn PCYDDS. Ar ôl cael eu henwebu, cyfeirir myfyrwyr i wneud cais trwy'r broses gyfnewid ryngwladol. Os yw myfyriwr yn gwneud cais fel myfyriwr astudio dramor sy'n talu ffioedd ac felly tu allan i'r cytundeb cyfnewid, dylent wneud cais cyn y dyddiad terfyn ymgeisio.

Mae gwybodaeth bellach ar gael yn www.uwtsd.ac.uk/cy/cais/ceisiadau-rhyngwladol.

### 12.5 Ymgeiswyr rhan amser

Dylai darpar ymgeiswyr ar gyfer rhaglenni rhan amser gwblhau'r ffurflen gais sydd ar gael yn yr adran 'Sut i Wneud Cais' ar wefan y Brifysgol, www.uwtsd.ac.uk/cy/ymgeisio-chyllid/sut-i-wneud-cais. Fel arall, gellir gofyn am ffurflenni cais gan y Gofrestrfa yn: derbyniadau@ydds.ac.uk.

### 12.6 Ymgeiswyr ôl-raddedig

Dylai darpar ymgeiswyr ar gyfer rhaglenni ôl-raddedig (ac eithrio rhaglenni TAR a gynigir drwy UCAS) gwblhau'r ffurflen gais sydd ar gael yn yr adran 'Sut i Wneud Cais' ar wefan y Brifysgol: www.uwtsd.ac.uk/cy/ymgeisio-chyllid/sut-i-wneud-cais. Fel arall, gellir gofyn am ffurflenni cais gan yr Uned Derbyn yn derbyniadau@ydds.ac.uk ar gyfer rhaglenni ôl-raddedig yng Nghymru, neu ar gyfer ymgeiswyr gan y Tîm Derbyn perthnasol isod:

Derbyniadau Rhyngwladol Birmingham: BirminghamInt@uwtsd.ac.uk
Derbyniadau Rhyngwladol Llundain: LondonInt@uwtsd.ac.uk
Derbyniadau Rhyngwladol Cymru: WalesInt@uwtsd.ac.uk

**Ymgeiswyr Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR)**

Dylai darpar ymgeiswyr ar gyfer rhaglenni TAR llawn amser wneud cais trwy gynllun Israddedig UCAS.

**Ymgeiswyr ymchwil ôl-raddedig**

Dylai darpar ymgeiswyr ar gyfer rhaglenni ymchwil ôl-raddedig gwblhau'r ffurflen gais sydd ar gael yn yr adran 'Sut i Wneud Cais' ar wefan y Brifysgol: www.uwtsd.ac.uk/cy/ymgeisio-chyllid/sut-i-wneud-cais. Dylai pob darpar ymgeisydd ar gyfer y rhaglenni PhD, PhD trwy Weithiau Cyhoeddedig, Meistr yn y Celfyddydau trwy Ymchwil a Meistr yn y Gwyddorau trwy Ymchwil gael trafodaeth gychwynnol gyda Rheolwr Graddau Ymchwil y Gyfadran berthnasol i benderfynu ar dîm goruchwylio posibl cyn cyflwyno cais.

### 12.7 Prentisiaethau

Dylai pob ymgeisydd ar gyfer rhaglenni Prentisiaeth fod yn gyflogedig mewn rôl sy'n gysylltiedig â'r rhaglen maent yn dymuno ei hastudio. Dylai darpar ymgeiswyr gofrestru eu diddordeb mewn bod yn ddarpar brentis trwy gwblhau'r ffurflen sydd ar gael yn hafan yr Uned Prentisiaethau ar wefan y Brifysgol. Ar ôl cofrestru eu diddordeb, bydd aelod o Dîm yr Uned Brentisiaethau'n cysylltu â darpar ymgeiswyr a fydd yn gwirio eu cymhwysedd ac yn rhoi cyngor iddynt ar y pwynt mynediad gorau'n seiliedig ar eu cymwysterau a'u profiad presennol. Yna, gellir darparu dolen i'r ffurflen gais.

### 12.8 Dysgu Seiliedig ar Waith

Mae'r Brifysgol yn cynnig ystod o ddyfarniadau dysgu yn y gwaith ar lefel israddedig ac ôl-raddedig trwy ei Fframwaith Arfer Proffesiynol. Ym mhob achos, cyfunir astudiaeth academaidd â dysgu yn y gweithle i ddarparu dysgwyr â'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau perthnasol iddynt allu datblygu perfformiad yn y gwaith ac ennill cymhwyster academaidd.

Rhaid i ddarpar ymgeiswyr fod mewn swydd a chytuno ar y gwaith â'u cyflogwr.

### 12.9 Micro-gredydau

Mae'r Brifysgol yn cynnig amrywiaeth o fodylau datblygu proffesiynol annibynnol, sydd â chredydau, a elwir yn ficrodystebau. Gellir cyfuno'r rhain neu eu 'pentyrru', gan arwain at ddyfarniad llawn megis Tystysgrif Addysg Uwch. Mae cynnwys y cwrs wedi ei gynnal ar safle ADRh ac mae taliadau'r cwrs wedi eu casglu ynghyd drwy ddefnyddio llwyfan talu diogel integredig. Defnyddir cwmni trydydd parti i ddilysu dogfennau adnabod myfyrwyr trwy wasanaeth dilysu ar-lein. Nid yw gweithdrefnau arferol, megis cyflwyno cais i astudio a derbyn cynnig o le, yn berthnasol i fyfyrwyr sy'n dymuno astudio modylau sydd â micro-gredydau.

## 13. Gwybodaeth gyffredinol am y broses ymgeisio

Bydd ymgeiswyr i'r rhan fwyaf o raglenni sydd â chredydau yn cael mynediad i borth ceisiadau'r Brifysgol, MyTSD, a fydd yn dod yn borth myfyrwyr ar ôl cofrestru. Caiff ymgeiswyr fanylion mewngofnodi fel y gallant olrhain eu cais, ymateb i wahoddiad i fynychu cyfweliad ac ymateb i gynnig.

## 14. Gofynion mynediad

Nod y Brifysgol yw darparu gwybodaeth glir, gywir a thryloyw am ei rhaglenni, sy'n briodol i anghenion darpar ymgeiswyr, mewn cyhoeddiadau mewnol ac allanol. Mae'r egwyddor hon yn berthnasol waeth beth fo'r cyfrwng (h.y. argraffedig, clyweledol, y we fyd-eang, ayb), er mwyn galluogi ymgeiswyr i wneud dewisiadau mewn ffordd wybodus.

Y prif ffynonellau gwybodaeth ar ofynion mynediad, a chynigion sefydlog y Brifysgol, yw:

- Gwefan UCAS a phroffiliau mynediad (ar gyfer rhaglenni y mae UCAS yn ymdrin â nhw);
- Gwefan y Brifysgol
- Llenyddiaeth y Gyfadran;
- Prosbectysau rhaglenni'r Brifysgol;
- Diwrnodau Agored y Brifysgol;
- Staff Campysau neu Ganolfannau Dysgu;
- Sesiynau gwybodaeth ar lefel disgyblaeth;
- Yr Uned Prentisiaethau;
- Deunyddiau hyrwyddol rhyngwladol a gynhyrchir gan Academi Fyd-eang Cymru;
- Arddangosfeydd a ffeiriau recriwtio tramor.

Hysbysir unrhyw newidiadau o ran gofynion mynediad neu gynigion safonol a wneir ar ôl cyhoeddi deunyddiau argraffedig cyn gynted ag y bo modd drwy wefan y Brifysgol (a gwefan UCAS neu asiantau recriwtio lle bo'n berthnasol). Felly, dylid ystyried mai'r ffynonellau hyn yw'r rhai mwyaf diweddar a pherthnasol. Cysylltir ag ymgeiswyr sydd wedi derbyn cynigion yn uniongyrchol i'w hysbysu am unrhyw newidiadau sy'n effeithio arnynt. Cyfeiriwch at Gytundeb Myfyrwyr y Brifysgol am fanylion pellach.

Mae'r Brifysgol yn croesawu ceisiadau gan oedolion o ddysgwyr nad oes ganddynt gymwysterau ffurfiol, o bosibl, ond sydd â'r cymhelliant a'r ymrwymiad i astudio ar gyfer cymwysterau Addysg Uwch. Os nad yw ymgeiswyr yn bodloni'r gofynion mynediad sylfaenol arferol, ond yn gallu dangos profiad, gwybodaeth neu dystiolaeth briodol o astudiaeth ddiweddar, efallai y bydd y Brifysgol yn gallu ystyried y rhain yn lle cymwysterau academaidd ffurfiol.

### 14.1 Tystlythyrau

Yn ychwanegol at y manylion personol ac academaidd y mae angen eu llenwi ar y ffurflen gais, bydd angen i ymgeiswyr gyflwyno dau dystlythyr. Yn ddelfrydol dylai'r tystlythyrau hyn fod yn rhai academaidd, ond mae rhai proffesiynol neu bersonol (ond ddim gan deulu) yn dderbyniol yn achos ymgeiswyr sydd heb fod mewn addysg yn ddiweddar. Rhaid i brentisiaid gynnwys eu cyflogwr presennol fel canolwr.

## 15. Y defnydd o wybodaeth gyd-destunol yn y broses dderbyn

Yn rhan o'i hymrwymiad i ehangu cyfranogiad a mynediad i Addysg Uwch, mae'r Brifysgol yn croesawu ceisiadau gan ddarpar fyfyrwyr o bob cefndir. Caiff gwybodaeth gyd-destunol a ddarperir gan ymgeiswyr ei chymryd i ystyriaeth er mwyn i gyraeddiadau blaenorol a photensial i lwyddo gael eu hasesu yng nghyd-destun eu hamgylchiadau unigol. Gellir rhoi ystyriaeth ychwanegol i'r categorïau canlynol yn achos ymgeiswyr: ymgeiswyr y mae cod post eu cartref mewn ardal dan anfantais lle mae'r gyfradd dilyniant i addysg uwch yn isel; ymgeiswyr sydd yr unigolyn cyntaf yn eu teulu agos i fynd i addysg uwch; ymgeiswyr sydd wedi bod dan ofal cyhoeddus ers tri mis neu ragor; ymgeiswyr sydd â chyfrifoldebau gofal;

ymgeiswyr sydd wedi ymddieithrio oddi wrth eu rhieni; ffoaduriaid a cheiswyr lloches; ac ymgeiswyr sydd wedi bod yn rhan o weithgareddau cyn cofrestru. Mae'r cyfryw ddangosyddion yn galluogi'r Brifysgol i nodi ymgeiswyr y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt.

Gallwch chi ddysgu rhagor am ymagwedd y Brifysgol at Dderbyniadau Cyd-destunol yma.

## 16. Cyfweliadau academaidd, clyweliadau, profion derbyn a phortffolios

### 16.1 Gofynion cyrsiau

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ar gyfer rhaglenni penodol fynychu cyfweliad academaidd neu glyweliad, ymgymryd â phrawf derbyn neu gyflwyno portffolio. Mae manylion pellach ynghylch gofynion o'r fath ar gyfer pob rhaglen ar gael ar wefan y Brifysgol a gwefan UCAS (lle bo'n berthnasol). Lle bo gofynion o'r fath yn berthnasol, bydd y Brifysgol yn ceisio rhoi gwybodaeth bellach i ymgeiswyr ar yr hyn a ddisgwylir ganddynt o fewn 10 diwrnod gwaith o dderbyn eu cais. Anogir ymgeiswyr cartref i fynychu diwrnodau ymweld, diwrnodau agored, a sesiynau gwybodaeth perthnasol.

### 16.2 Ymddygiad ymgeiswyr

Yn unol â Pholisi Urddas yn y Gwaith y Brifysgol, ceisia'r Brifysgol sefydlu amgylchedd lle caiff staff a myfyrwyr eu trin gydag urddas a pharch, boed hynny yn y gwaith neu wrth astudio, a lle mae pob unigolyn yn cydnabod eu cyfrifoldeb wrth ddatblygu a chynnal amgylchedd lle bydd pob myfyriwr, aelod o staff, neu ymwelydd yn cael ei werthfawrogi a'i barchu. Caiff pob ymgeisydd ei drin ag urddas a pharch yn ystod y broses dderbyn a disgwylir iddo/i ymestyn yr un parch wrth ryngweithio ag aelodau staff y Brifysgol.

Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol na fydd y Brifysgol yn goddef unrhyw fath o ymddygiad bygythiol neu ymosodol tuag at ei staff yn ystod cyfweliadau derbyn neu ar unrhyw adeg yn y broses dderbyn. Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i dynnu cais unrhyw ymgeisydd y mae'n credu iddo/i ymddwyn yn y fath fodd.

## 17. Rhaglenni sy'n gofyn am ddatgeliad manwl (Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd)

Bydd ymgeiswyr sy'n dymuno cofrestru ar raglenni lle bydd yn ofynnol iddynt weithio gyda phlant a/neu oedolion agored i niwed, yn cael eu hysbysu trwy wybodaeth am y cwrs, yn ystod cyfweliadau ac mewn llythyrau cynnig dilynol y bydd rhaid iddynt gael Datgeliad Manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd er mwyn cofrestru'n llawn fel myfyriwr yn y Brifysgol a chyn iddynt gael ymgymryd â gwaith sy'n galw am gyswllt gyda phlant neu oedolion agored i niwed. Bydd ymgeiswyr sy'n cael cynnig am le yn cael cyfarwyddiadau ar sut i fynd ati i gwblhau gwiriad DBS trwy 'First Advantage KnowYourPeople', gwasanaeth datgelu electronig ar-lein. Bydd Panel Adolygu Euogfarnau Troseddol y Brifysgol yn penderfynu yw unrhyw euogfarnau neu wybodaeth a ddatgelir yn anghydnaws â lle ar raglen astudio.

Er mwyn caniatáu i'w gwiriad DBS fod yn gludadwy ac i alluogi i sefydliadau eraill ei dderbyn, mae'r Brifysgol yn argymell yn gryf bod ymgeiswyr yn cofrestru ar gyfer Gwasanaeth Diweddaru DBS www.gov.uk/dbs-update-service.

Bydd pryd mae angen i'r ymgeisydd wneud cais am y datgeliad hwn (er enghraifft, cyn cofrestru neu ddim nes blwyddyn tri'r rhaglen) yn amrywio'n ôl amseriad y cyswllt gyda phlant a/neu oedolion agored i niwed o fewn strwythur y cwrs a chaiff hyn ei esbonio'n eglur i'r

ymgeisydd yn eu llythyr cynnig. Ni chaniateir i unrhyw fyfyriwr wneud unrhyw waith sy'n gofyn am gysylltu â phlant a/neu oedolion agored i niwed heb ddatgeliad manwl boddhaol.

Mae ymgeiswyr sydd eisoes wedi ymgymryd â gwiriad DBS manwl trwy sefydliad arall ac sydd wedi meddu ar danysgrifiad dilys i'r Gwasanaeth Diweddaru DBS, gysylltu â'r Tîm Cofnodion Myfyrwyr a Chofrestru yn dbs@pcydds.ac.uk i ofyn a chaiff eu datgeliad manwl ei dderbyn ar gyfer eu rhaglen astudio. Lle bo hyn yn berthnasol, rhaid i'r datgeliad fod ar yr un lefel ac ar gyfer yr un gweithlu(oedd) ag sydd angen ar gyfer eu rhaglen astudio, a rhaid i'r ymgeisydd allu rhoi'r dystysgrif DBS gwreiddiol i'r Brifysgol ar gais.

Er mai dim ond nifer penodol o raglenni a gynigir yn y Brifysgol sy'n gofyn i'r ymgeisydd wneud cais am Wiriad Manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol y gall cyflogwyr y DU ofyn iddynt yn y dyfodol gael Gwiriad DBS yn rhan o'r broses recriwtio neu yn ystod eu cyflogaeth ddilynol. Gall hyn fod yn wir hyd yn oed lle nad oedd angen Gwiriad DBS i gael mynediad i'r rhaglen astudio yn y Brifysgol.

Ceir gwybodaeth bellach ar y broses gwneud cais i'r DBS yma:
www.uwtsd.ac.uk/cy/ymgeisio-chyllid/sut-i-wneud-cais/gwiriadaur-gwasanaeth-datgelu-gwahardd-dbs.

Yn ogystal â chael datgeliad manwl boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, bydd rhaid i ymgeiswyr o dramor ddarparu tystiolaeth o wiriad boddhaol gan yr heddlu gan eu mamwlad cyn iddynt allu cofrestru ar raglen y mae angen gwiriad DBS manwl cyn iddynt gael gwneud gwaith sy'n gofyn am gysylltu gyda phlant neu oedolion agored i niwed. Mae'r broses gwneud cais am wiriad cofnodion troseddol ar gyfer ymgeiswyr o dramor yn amrywio o wlad i wlad. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:
www.gov.uk/government/publications/criminal-records-checks-for-overseas-applicants.

## 18. Penderfyniadau, Cynigion ac Adborth

Nod y Brifysgol yw ystyried ceisiadau a gwneud penderfyniadau mor gyflym â phosibl. Fodd bynnag, oherwydd nifer, ystod ac ansawdd y ceisiadau a dderbynnir, nid yw bob amser yn bosibl gwneud penderfyniad ynghylch derbyn myfyrwyr ar unwaith.

Yn achos rhaglenni astudio nad ydynt yn gofyn i ymgeiswyr fynychu cyfweliad academaidd neu glyweliad, wneud prawf derbyn neu gyflwyno portffolio, bydd y Brifysgol yn ceisio rhoi penderfyniad i ymgeiswyr ar eu cais o fewn 10 diwrnod o dderbyn eu cais.

Lle bo ymgeisydd wedi gwneud cais trwy UCAS, bydd y Brifysgol yn cyfleu ei phenderfyniad trwy sianelau swyddogol UCAS yn ogystal â dull cyfathrebu uniongyrchol naill ai gan y Tîm Derbyn trwy borth ymgeiswyr MyTSD y Brifysgol, neu gan y Tîm Gwasanaethau Mewnfudo a Chydymffurfiaeth Fisâu. Lle bo ymgeisydd wedi gwneud cais yn uniongyrchol i'r Brifysgol neu trwy asiant, caiff y penderfyniad ei gyfleu i'r ymgeisydd (ac asiant, lle bo'n berthnasol) gan y tîm derbyn perthnasol neu'r Tîm Gwasanaethau Mewnfudo a Chydymffurfiaeth Fisâu.

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn derbyn naill ai cynnig Amodol ar sail cymwysterau neu ofynion sydd eto i'w cwblhau, neu gynnig Diamod. Gall ymgeiswyr penodol fod yn gymwys i dderbyn cynnig cyd-destunol. Ceir rhagor o wybodaeth am gynigion cyd-destunol yma, www.uwtsd.ac.uk/cy/cyngor-i-ymgeiswyr.

Mewn rhai amgylchiadau, gall cynnig fod yn amodol ar ofynion anacademaidd e.e. gofynion ariannol ar gyfer ymgeiswyr rhyngwladol sydd angen Fisa Myfyriwr.

Lle bo ymgeisydd wedi gwneud cais am un rhaglen ac ni fu'n llwyddiannus, gellir cynnig rhaglen amgen.

Wrth dderbyn cynnig o le ar raglen astudio, mae ymgeisydd yn cytuno eu bod yn ffurfio contract sy'n eu rhwymo'n gyfreithiol gyda'r Brifysgol. Mae'r Cytundeb Myfyrwyr ynghyd â llythyr o gynnig yr ymgeisydd yn sail i'r contract rhwng yr ymgeisydd a'r Brifysgol. Felly, mae'n bwysig bod yr ymgeiswyr yn darllen y telerau ac amodau a amlinellir yn y Cytundeb Myfyrwyr yn ofalus cyn derbyn cynnig o le.

Mae gan ymgeiswyr hawl gyfreithiol i newid eu meddwl a chanslo'ch cytundeb o fewn 14 diwrnod i dderbyn ein cynnig. Ceir ffurflen ganslo yma:
www.uwtsd.ac.uk/cy/amdanom/llywodraethu-rheolaeth/strategaethau-pholisiau/y-polisi-derbyn-thelerau-ac-amodau-i.

## 19. Cadarnhau a Chlirio

### 19.1 Bodloni amodau cynigion

Bydd cynnig yn cael ei gadarnhau pan fydd yr ymgeisydd wedi bodloni holl amodau'r cynnig gwreiddiol gan gynnwys darparu eu canlyniadau. Mae'r broses gadarnhau'n cynnwys cymharu'r amodau oedd ynghlwm wrth y cynnig gwreiddiol yn erbyn tystiolaeth a ddarparwyd i fodloni'r amodau hynny. Os bydd y Brifysgol o'r farn bod yr amodau'n cael eu bodloni, mae'r Brifysgol yn gallu 'cadarnhau' lleoedd i ymgeiswyr.

### 19.2 Clirio ar gyfer Ymgeiswyr Cartref

Mae ymgeiswyr cartref israddedig llawn amser nad oes ganddynt gynigion gan unrhyw brifysgol yn gymwys i ymgeisio drwy broses glirio UCAS. Mae Clirio UCAS yn agor ar ddechrau Gorffennaf a hon yw'r broses a ddefnyddir i gyflwyno ceisiadau ar ôl i ddyddiad cau ceisiadau UCAS basio ar 30ain Mehefin.

## 20. Ceisiadau am Gydnabod Dysgu Tystysgrifedig Blaenorol a Chydnabod Dysgu Blaenorol drwy Brofiad

Pan fo'n briodol, caiff ymgeiswyr i raglenni israddedig wneud cais i fynd i mewn i raglen yn ei hail neu drydedd flwyddyn. Hefyd gall ymgeiswyr am raglenni israddedig a rhaglenni ôl-raddedig a addysgir wneud cais am gael eu hesgusodi rhag modylau penodol ar sail astudio a wnaethpwyd mewn sefydliad arall. Bydd yr holl geisiadau hyn yn cael eu hystyried gan y Rheolwyr Rhaglen perthnasol. Bwrdd Cydnabod Dysgu Blaenorol drwy Brofiad Bwrdd Achredu'r Brifysgol fydd yn ystyried ceisiadau am gydnabod dysgu blaenorol drwy brofiad.

Ceir manylion llawn y broses ar gyfer cydnabod dysgu ardystiedig a thrwy brofiadau blaenorol yn y Polisi Cydnabod Dysgu Blaenorol (RPL) yn www.uwtsd.ac.uk/cy/llawlyfr-ansawdd-academaidd. Ym mhob achos, fel arfer dylai'r broses gael ei chwblhau cyn i'r ymgeisydd gofrestru ar raglen astudio.

## 21. Myfyrwyr â phrofiad o ofal

Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn ymrwymo i ddarparu safon uchel o fal a chymorth i'w myfyrwyr. Gall myfyrwyr sy'n meddwl mynd i Addysg Uwch o ofal fod yn dawel eu meddwl y bydd y Brifysgol yn darparu'r cymorth a'r wybodaeth sydd eu hangen. Mae'r gefnogaeth hon ar gael wrth iddynt benderfynu beth neu ble i astudio, mae'n parhau trwy gydol

y broses ymgeisio, ac fe fydd yn parhau pan fyddant wedi dechrau eu rhaglen astudio. Mae manylion pellach ar gael yn: www.uwtsd.ac.uk/cy/profiad-chyfleusterau/cymorth-lles-myfyrwyr/iechyd-llesiant.

## 22. Dan 18 oed

Mae gan y Brifysgol rai myfyrwyr cartref sy'n dechrau eu hastudiaethau cyn eu pen-blwydd yn 18 oed. Yn ôl y gyfraith mae unrhyw un sydd dan 18 oed yn blentyn ac mae gan y Brifysgol ddyletswyddau gofal arbennig tuag at blentyn.

Adeg gwneud cynnig, bydd y Tîm Derbyn yn anfon ffurflen gydsynio at yr ymgeisydd a'i riant neu warcheidwad cyfreithiol, i'r ddau ohonynt ei chwblhau a'i dychwelyd. Mae'r ffurflen yn darparu datganiad o gytundeb i'r gweithgareddau mae'r ymgeisydd yn debygol o gymryd rhan ynddynt fel myfyriwr. Bydd gofyn i'r ymgeisydd roi caniatâd i'r Brifysgol gysylltu â'u rhiant/gwarcheidwad cyfreithiol yn ôl yr angen tra byddant yn iau nag 18. Nid yw Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn gweithredu 'in loco parentis' a bydd angen caniatâd rhiant neu warcheidwad cyfreithiol lle bo'r myfyriwr yn dymuno gwneud rhai penderfyniadau penodol (e.e. llunio contractau penodol, gwneud cwyn neu yn achos salwch, damwain neu faterion disgyblaethol). Bydd rhaid i'r rhiant neu warcheidwad cyfreithiol ddarparu manylion cyswllt brys rhiant/gwarcheidwad cyfreithiol sy'n byw yn y DU cyn gallu derbyn yr ymgeisydd.

Mae gan y Brifysgol Bolisi Diogelu a gweithdrefnau sy'n ymwneud â gofalu am fyfyrwyr o dan 18 oed, sydd ar gael yn www.uwtsd.ac.uk/cy/llawlyfr-ansawdd-academaidd.

Rhaid bod myfyrwyr campws Llundain a champws Birmingham yn 18 oed ar ddiwrnod cyntaf cyfnod addysgu eu rhaglen astudio.

## 23. Oedolion Agored i Niwed

Oedolyn agored i niwed yw person 18 oed neu drosodd, y mae neu y gallai fod arno angen gwasanaethau gofal cymunedol oherwydd anabledd meddwl neu ryw anabledd, oedran neu salwch arall ac sy'n neu y gallai fod yn analluog i ofalu amdano neu amdani ei hun rhag niwed sylweddol neu ecsbloetiaeth yn cael ei ystyried yn agored i niwed.

Mae gan y Brifysgol Bolisi Diogelu, sydd ar gael yn: www.uwtsd.ac.uk/cy/llawlyfr-ansawdd-academaidd.

## 24. Pobl Ifanc sy'n Ofalwyr

Mae'r Brifysgol yn nodi bod Pobl Ifanc sy'n Ofalwyr y grŵp targed o fewn ei Strategaeth Ehangu Mynediad. Ynghyd â grwpiau penodol eraill, ystyrir bod potensial i Ofalwyr sy'n Oedolion Ifanc fod dan anfantais yn addysgol oherwydd eu cyfrifoldebau gofalu, ac felly eu bod yn haeddu cymorth cyn dechrau yn y Brifysgol, cymorth adeg gwneud cais ac ar hyd eu haddysg. Mae'n bosibl y bydd Tiwtoriaid Derbyn, sy'n ymwybodol o statws yr ymgeisydd fel Gofalwr fel y'i nodir ar ei ffurflen gais UCAS neu drwy ei ddatganiad personol neu'i dystlythyrau, yn dewis cymryd hyn i ystyriaeth wrth benderfynu ar y cynnig maent yn dymuno'i wneud.

Mae gan y Brifysgol dîm o bobl sy'n ymrwymo i ddarparu cymorth yn ariannol ac yn fugeiliol i sicrhau bod myfyrwyr sy'n jyglo cyfrifoldebau ychwanegol yn cael eu cefnogi'n llawn ac wedi'u paratoi i ymgymryd â'u hastudiaethau. Mae gan y Brifysgol Eiriolwr Gyrfaoedd sy'n gweithio ar draws pob campws a gellir cysylltu â nhw unrhyw bryd, mewn e-bost, neges destun neu ar

dudalen Facebook pwrpasol ynghylch unrhyw ymholiadau neu bryderon a allai fod gan fyfyriwr cyn, yn ystod neu ar ôl cwblhau eu hastudiaethau. Mae'r Brifysgol yn gweithio'n agos gyda'r Carers Trust Wales, yn ogystal â grwpiau cefnogi gofalwyr lleol i ddarparu gwybodaeth a chymorth i unrhyw oedolyn ifanc sy'n gobeithio dilyn addysg uwch a thrwy gydol eu hastudiaethau.

Mae gwybodaeth bellach ar gael yn:
www.uwtsd.ac.uk/cy/astudio/profiad-chyfleusterau/cymorth-lles-myfyrwyr.

## 25. Aelodau'r Lluoedd Arfog

Mae'r Brifysgol yn falch o fod wedi llofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog ac mae'n gweithio gyda sefydliadau partner i sicrhau bod aelodau sy'n gwasanaethu ac aelodau sydd wedi ymddeol o'r Lluoedd Arfog yn gallu gael gafael ar gymorth, cyngor ac arweiniad priodol i'w gwneud yn haws iddynt ddychwelyd i addysg. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar:
www.uwtsd.ac.uk/cy/amdanom/cenhadaeth-gweledigaeth/cyfamod-cymunedol-y-lluoedd-arfog.

Mae'r Brifysgol yn Ddarparwr Dysgu cymeradwy ar Gynllun Credydau Dysgu Uwch yr MOD, a weinyddir gan ELCAS. Mae'r cynllun yn hyrwyddo dysgu gydol oes ymhlith aelodau'r Lluoedd Arfog ac yn cynnig cymorth ariannol i bersonél sy'n gwasanaethu cymwys a rhai sy'n gadael y lluoedd ac yn gobeithio cwblhau cymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol ar lefel addysg uwch. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: www.enhancedlearningcredits.com.

## 26. Ffoaduriaid a cheiswyr lloches

Mae'r Brifysgol yn ymwybodol ei fod yn arfer da defnyddio asesiad holistig, gan edrych nid yn unig ar arholiadau a graddau ond hefyd ar amgylchiadau addysg yr ymgeisydd. Mae'r Brifysgol yn cymryd pob ffactor i ystyriaeth wrth ystyried gweithgareddau allgymorth gyda ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Mae ffoaduriaid, ceiswyr lloches a'u teuluoedd yn cynrychioli grŵp o ddarpar fyfyrwyr cryf eu cymhelliad sydd â chymwysterau helaeth ac mae'r Brifysgol yn ystyried y rhinweddau cadarnhaol y gallant eu cynnig i raglenni ar bob lefel.

Mae'r Brifysgol yn cefnogi cynllun 2019 Llywodraeth Cymru i wneud Cymru yn 'Genedl Noddfa' wrth ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad hygyrch i gynyddu mynediad i addysg bellach ac uwch gan ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

## 27. Ymgeiswyr sydd ag anghenion cymorth ychwanegol

Dylid darllen yr adran hon o'r Polisi ar y cyd â Datganiad Polisi'r Brifysgol ar Dderbyn Myfyrwyr Anabl, sydd ar gael ar www.uwtsd.ac.uk/cy/amdanom/llywodraethu-rheolaeth/strategaethau-pholisiau/y-polisi-derbyn-thelerau-ac-amodau-i, a chan gyfeirio at y diffiniadau a nodir ynddo.

Anogir yr ymgeiswyr i ddatgelu unrhyw wahaniaeth penodol o ran dysgu, anabledd neu gyflwr meddygol cyn gynted ag y bo modd i'r bobl briodol, cyn gynted â phosibl yn ystod y broses ymgeisio a chydol eu cyfnod yn y Brifysgol. Anogir ymgeiswyr sydd wedi datgelu bod ganddynt anabledd ar eu ffurflen gais i gysylltu â Gwasanaethau Myfyrwyr a'u Cyfadran Academaidd i drafod eu gofynion cymorth. Ceir gwybodaeth bellach ynghylch Gwasanaethau Myfyrwyr yn www.uwtsd.ac.uk/cy/astudio/profiad-chyfleusterau/cymorth-lles-myfyrwyr.

Bydd y Brifysgol yn asesu ceisiadau gan ymgeiswyr anabl drwy ddefnyddio'r un meini prawf derbyn sy'n berthnasol i bob ymgeisydd. Fel arfer bydd addasrwydd academaidd ymgeisydd ar gyfer rhaglen astudio'n cael ei asesu ar wahân i drafodaeth sy'n canolbwyntio ar anghenion yr ymgeisydd.

Bydd Ffurflen Ymholiad Anghenion Cymorth ar gael i ymgeiswyr sy'n derbyn cynnig am le i alluogi'r rheiny ag anghenion cymorth ychwanegol i ddarparu gwybodaeth bellach o ran y rhain ac i roi eu caniatâd i'r wybodaeth hon gael ei rhannu gyda staff perthnasol y brifysgol er mwyn pennu addasiadau rhesymol a mesurau cydadferol. Dylid gwneud myfyrwyr sy'n gwrthod rhannu gwybodaeth ynghylch eu hanghenion cymorth ychwanegol yn ymwybodol y gallai hyn gyfyngu ar allu'r Brifysgol i sicrhau y darperir trefniadau cymorth priodol ac amserol.

Gall y Brifysgol benderfynu gwahodd ymgeiswyr sydd wedi datgelu anableddau i gwrdd ag aelod o'r Gyfadran Academaidd, cynrychiolydd o'r Tîm Cymorth Dysgu (Gwasanaethau Myfyrwyr), ac unrhyw staff perthnasol eraill, er mwyn i ofynion cymorth gael eu hadnabod. Fel arfer trefnir cynnal y cyfarfod mor gynnar â phosibl wedi i gynnig am le ar raglen astudio gael ei wneud.

Lle caiff gofynion cymorth cymhleth eu nodi, gellir cyfeirio achos yr ymgeisydd at 'Banel Adolygu Addasiadau Rhesymol' y Brifysgol i'w ystyried ymhellach. Bydd y Panel yn asesu p'un a yw'r Brifysgol yn gallu gwneud addasiadau rhesymol i alluogi'r ymgeisydd i gymryd rhan lawn yn eu rhaglen ddewisol ac i gyrraedd eu potensial llawn.

Lle na ellir bodloni anghenion ac wedi archwilio pob ateb arall posibl, efallai mai'r unig opsiwn rhesymol yw i'r Brifysgol dynnu ei gynnig o le'n ôl. O dan yr amgylchiadau hyn, gwneir argymhelliad i'r Uwch Reolwr dynodedig gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr, ar ran y Panel Adolygu Addasiadau Rhesymol. Bydd yr Uwch Reolwr dynodedig yn ystyried yr argymhelliad ac os yw ef/hi yn cytuno bydd yr ymgeisydd yn cael gwybod am y penderfyniad i dynnu'r cynnig yn ôl.

Dylai ymgeiswyr sy'n dymuno trosglwyddo i gwrs amgen yn y Brifysgol neu symud ymlaen i lefel uwch fod yn ymwybodol efallai y bydd angen cynnal asesiad newydd, yng nghyd-destun y cais newydd.

## 28. Ymgeiswyr i raglenni astudio achrededig (gan gynnwys y rhai sy'n arwain at statws cymwysedig neu sy'n cael eu hachredu gan Gorff Proffesiynol, Statudol neu Reoleiddiol)

Ceir gofynion proffesiynol rhaglenni astudio sy'n arwain at achrediad proffesiynol (megis statws athrawon cymwysedig) ar dudalennau penodol y rhaglen ar wefan y Brifysgol.

Yn ogystal mae angen i dimau rhaglenni sicrhau bod gan bawb a dderbynnir ar raglen astudio sy'n arwain at statws achrededig y cymwyseddau corfforol, meddyliol, deallusol ac ymddygiadol cynhenid ar gyfer gyrfa lwyddiannus yn eu dewis faes. Mae Polisi Addasrwydd i Ymarfer y Brifysgol ar gael yn: [www.uwtsd.ac.uk/cy/llawlyfr-ansawdd-academaidd](www.uwtsd.ac.uk/cy/llawlyfr-ansawdd-academaidd).

Lle bo pryderon ynghylch iechyd ymgeisydd, dylid cynghori'r ymgeisydd i gysylltu â'u Meddyg Teulu i ofyn am apwyntiad i gael gwiriad iechyd meddygol gydag arbenigwr Iechyd Galwedigaethol. Dylai unrhyw gostau gael eu talu gan yr ymgeisydd.

Lle bo cod ymddygiad proffesiynol yn gysylltiedig â rhaglen astudio nad yw'n achrededig, bydd y Gyfadran yn tynnu sylw ymgeiswyr at y gofynion hynny.

## 29. Ymgeiswyr sy'n datgan arestiadau, cyhuddiadau neu euogfarnau ynghylch tramgwyddau troseddol

Er bydd diogelu myfyrwyr, staff ac ymwelwyr ac i alluogi i'r Brifysgol ddarparu cymorth priodol, bydd y sawl sy'n gwneud cais i'r Brifysgol a myfyrwyr sydd wedi cofrestru yn cael eu hannog i ddatgan a ydynt wedi eu harestio, wedi eu cyhuddo, a oes ganddynt unrhyw euogfarnau ynghylch tramgwydd troseddol perthnasol cyn gynted ag y bo modd. Ni fydd y ffaith eich bod wedi'ch arestio, eich cyhuddo neu eich euogfarnu ynghylch tramgwydd troseddol, o reidrwydd, yn gwahardd ymgeisydd rhag cael lle ar eu dewis raglen. Bydd hyn yn amodol ar y rhaglen ac amgylchiadau a chefndir y drosedd/troseddau.

Caiff unrhyw ddatganiad o arestiad, cyhuddiad neu euogfarn ynghylch tramgwydd troseddol, ac unrhyw ddatgeliad dilynol o wybodaeth mewn perthynas â'r datganiad, ei drin mewn ffordd sensitif, ei gadw'n gwbl gyfrinachol, ei ddatgelu o'r aelodau staff Prifysgol dynodedig yn unig a'i reoli'n unol ag egwyddorion Deddf Diogelu Data 2018 a GDPR y DU. Bydd unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â datganiadau neu ddatgeliad a geir trwy'r DBS neu drwy ffordd arall yn cael ei chadw, a'i gwaredu yn y pendraw, yn unol â chanllawiau cyfredol y DBS ar storio, trin, defnyddio, cadw a gwaredu datgeliadau a gwybodaeth datgeliadau yn ddiogel. Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu data euogfarnau troseddol yw amodau 10 (Atal neu ganfod gweithredoedd anghyfreithlon) ac 18 (Diogelu plant ac unigolion mewn risg) yn Atodlen 1 DPA 2018; ac amod Erthygl 6(1)(b) a/neu 6(1)(e) GDPR y DU.

Ceir canllawiau ar gyfer ymgeiswyr ar ddatgelu euogfarnau troseddol yn: www.uwtsd.ac.uk/cy/cais/cyngor-i-ymgeiswyr/euogfarnau-troseddol. Mae gan y Tîm Gwasanaethau Myfyrwyr staff hyfforddedig sy'n gallu darparu cymorth perthnasol i ymgeiswyr. Gall ymgeiswyr sy'n dymuno siarad â rhywun yn gyfrinachol am eu heuogfarnau gysylltu â datgeiliadau@pcydds.ac.uk.

Yn dibynnu ar y rhaglen astudio y gwnaed cais amdani, mae gofynion a gweithdrefnau gwahanol ar waith sy'n ymwneud â datgelu arestiadau, cyhuddiadau ac euogfarnau ynghylch tramgwyddau troseddol.

Rhaid i ymgeiswyr sy'n dymuno cofrestru ar raglenni astudio lle bydd rhaid iddynt weithio gyda phlant, pobl ifanc neu oedolion agored i niwed ddatgelu pob euogfarn heb ei disbyddu a rhybuddion amodol, a phob euogfarn wedi'i disbyddu a rhybudd oedolion ac eithrio unrhyw rai a fyddai'n cael eu 'hidlo' yn ôl diffiniad Gorchymyn (Eithriadau) Deddf Adfer Troseddwyr 1974 (a ddiwygiwyd yn 2020) www.gov.uk/government/publications/dbs-filtering-guidance/dbs-filtering-guide Bydd ymgeiswyr sydd wedi nodi bod ganddynt euogfarnau troseddol ar eu cais yn cael eu gwahodd i gwblhau Ffurflen Hunan-ddatgan Euogfarn(au) Troseddol y Brifysgol. Caiff y ffurflen hunan-ddatgan ac unrhyw wybodaeth ddilynol a ddarperir mewn perthynas â'r datganiad yn cael eu hystyried gan Banel Adolygu Euogfarnau Troseddol y Brifysgol. Bydd rhaid hefyd i'r sawl sy'n gwneud cais i'r cyfryw raglenni gael datgeliad manwl boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn ogystal â bodloni unrhyw amodau cynnig cyn iddynt allu cofrestru'n llawn fel myfyriwr. Bydd y Panel Adolygu Euogfarnau Troseddol yn penderfynu a yw unrhyw euogfarnau neu wybodaeth ynghylch arestiadau neu gyhuddiadau troseddol a ddatgelir ar y ffurflen hunan-ddatgan a'r Gwiriad DBS yn anghydnaws â lle ar raglen astudio.

Bydd ymgeiswyr nad ydynt yn dymuno cofrestru ar raglenni lle nad yw gwiriad DBS manwl yn ofynnol yn cael gwahoddiad i gwblhau Ffurflen Datgan Euogfarn(au) Troseddol y Brifysgol unwaith y byddant wedi derbyn cynnig am le yn bendant i'w galluogi i ddatgelu unrhyw euogfarnau. Anogir y sawl sy'n gwneud cais i'r cyfryw raglenni i ddatgan unrhyw euogfarnau 'heb ei disbyddu' 'perthnasol' a/neu rybuddion amodol ac i ddarparu manylion unrhyw gyfyngiadau neu ofynion prawf a allai effeithio ar eu hastudiaethau. Caiff y ffurflen hunan-ddatgan ac unrhyw wybodaeth ddilynol a ddarperir mewn perthynas â'r datganiad yn cael eu hystyried gan Banel Adolygu Euogfarnau Troseddol y Brifysgol. Bydd y Panel yn ystyried p'un

a fyddai cyfyngiadau neu ofynion prawf y gallai bod angen i'r ymgeisydd gadw atynt yn dilyn euogfarn yn gydnaws â lle ar raglen astudio. Bydd y Panel yn cymryd i ystyriaeth unrhyw addasiadau y gellid eu gwneud i hwyluso astudio.

Bydd rhaid i fyfyrwyr sydd ar gyfnod hwyrach yn eu rhaglen astudio ac sy'n nodi eu bod yn dymuno cofrestru ar fodwl dewisol sy'n cynnwys gweithio gyda phlant, phobl ifanc neu oedolion agored i niwed ddatgan unrhyw arestiadau, cyhuddiadau neu euogfarnau ynghylch tramgwyddau troseddol a chael Datgeliad Manwl boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn cael dechrau'r modwl.

Bydd rhaid i ymgeiswyr rhyngwladol ddatgan unrhyw euogfarnau troseddol yn unol â gofynion y Swyddfa Gartref.

Bydd rhaid i ymgeiswyr sy'n dymuno gwneud cais am lety y mae'r Brifysgol yn berchen arno ddatgelu unrhyw euogfarnau ar eu Ffurflen Cais am Lety.

Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i wrthod lle os bydd yn ystyried y gallai derbyn ymgeisydd beryglu diogelwch cymuned y Brifysgol.

Bydd peidio â datgan euogfarn droseddol yn gallu golygu y caiff cais ei wrthod, ac os ceir myfyriwr yn euog o drosedd neu os bydd yn destun ymchwiliad troseddol wedi iddo/iddi wneud cais, rhaid iddo/iddi hysbysu'r Brifysgol.

Bydd disgwyl i fyfyrwyr sy'n parhau ddatgan arestiadau, cyhuddiadau ac euogfarnau troseddol yn syth a bydd gofyn iddynt gadarnhau adeg ailgofrestru nad oes ganddynt euogfarn droseddol sydd heb ei datgan yn flaenorol i'r Brifysgol.

Bydd y Brifysgol yn ystyried gweithredu'r Polisi Camymddwyn Anacademaidd os na fydd myfyriwr yn datgan arestiadau, cyhuddiadau neu euogfarnau ynghylch tramgwyddau troseddol pan fo'n briodol yn y cyfnod derbyn.

## 30. Ymgeiswyr Rhyngwladol

Asesir pob ymgeisydd yn unigol, yn ôl y dystiolaeth a ddarperir ar y ffurflen gais ac mewn dogfennau ategol. Rhaid i bob ymgeisydd fodloni gofynion y Brifysgol yn ogystal ag unrhyw ofynion a roddir i'r sefydliad gan gyrff y Llywodraeth/deddfwriaethol. Mae'r rhain yn cynnwys, ond heb eu cyfyngu i, ofynion nawdd fisa myfyrwyr yn ôl diffiniad y Swyddfa Gartref.

Os bydd angen fisa myfyriwr ar ymgeisydd, a bod ei hanes/gofnod mewnfudo'n dangos ei fod yn annhebygol iawn o fod yn llwyddiannus yn ei gais am fisa, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i beidio â chynnig lle ar y rhaglen.

Yn achos rhaglenni dysgu o bell, nid fydd y Brifysgol yn gofyn i ymgeiswyr rhyngwladol wneud cais am fisa lle nad oes raid iddynt fynychu campws mewn person yn y DU a lle bydd eu dysgu'n cael ei gynnal yn llwyr o bell, tu allan i'r DU, gydol eu hastudiaethau.

Caiff ymgeiswyr rhyngwladol y mae arnynt angen cymorth yn ystod y broses dderbyn gysylltu â'r canlynol:

Derbyniadau Rhyngwladol Birmingham: BirminghamInt@uwtsd.ac.uk
Derbyniadau Rhyngwladol Llundain: LondonInt@uwtsd.ac.uk
Derbyniadau Rhyngwladol Cymru: WalesInt@uwtsd.ac.uk

### 30.1 Gofynion academaidd

Mae'r Brifysgol yn croesawu myfyrwyr sydd â chymwysterau academaidd o bob cwr o'r byd. Fodd bynnag, mae cyfwerthedd cymwysterau academaidd yn amrywio o wlad i wlad ac mae cymwysterau a enillwyd y tu allan i'r DU yn cael eu gwirio yn rhan o'r broses dderbyn ac fel arfer maent yn cyd-fynd â chanllawiau gan UK ENIC – i gael rhagor o wybodaeth ewch i www.enic.org.uk.

Fel rhan o Drwydded Nawdd Myfyrwyr UKVI, mae'n ofynnol i'r Brifysgol weld a chadw copïau o basbort a fisa cyfredol (dilys ar gyfer astudio yn y Brifysgol) yr holl fyfyrwyr rhyngwladol ynghyd â dogfennau cymwysterau (yn cynnwys cyfieithiadau ardystiedig os nad ydynt yn Saesneg) sy'n sail ar gyfer cynnig lle yn y Brifysgol.

Mae'r Brifysgol yn cynnal y gwiriadau hyn yn rhan o'r broses dderbyn ac yna'r broses gofrestru ddilynol pan fyddant yn cyrraedd. Ni all y Brifysgol ganiatáu i ymgeisydd rhyngwladol gofrestru'n llawn mewn peron yn y Brifysgol heb fynd drwy'r broses hon. Yn ychwanegol at y ddogfennaeth sy'n ofynnol fel rhan o ymrwymiadau Trwydded Nawdd Myfyrwyr y Brifysgol, bydd y Brifysgol hefyd yn storio unrhyw ddogfennaeth arall a dderbyniwyd i gefnogi cais.

Efallai bydd ymgeiswyr rhyngwladol sydd angen fisa myfyriwr a noddir yn gorfod cael cyfweliad derbyn gan ddefnyddio platfformau digidol, y ffôn neu wyneb yn wyneb.

### 30.2 Gofynion Iaith Saesneg

Nid Saesneg fydd mamiaith nifer o'r ymgeiswyr tramor, er eu bod, o bosibl, wedi cael addysg trwy gyfrwng y Saesneg. Mae dwy elfen i'r gofynion Iaith Saesneg: 1) gofynion academaidd a bennir gan y Brifysgol yn ei Pholisi Iaith Saesneg a 2) gofynion mewnfudo a bennir gan y Swyddfa Gartref. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr rhyngwladol fodloni'r naill ofyniad a'r llall.

Rhaid bod gan ymgeiswyr nad Saesneg yw eu mamiaith feistrolaeth ddigonol ar y Saesneg i gwblhau eu hastudiaethau'n foddhaol a bod wedi cwblhau prawf hyfedredd iaith Saesneg neu feddu ar Gymhwyster Academaidd penodedig a aseswyd gan y Brifysgol ei fod yn bodloni gofynion academaidd penodol y cwrs y gwneir cais amdano a gofynion Fisâu a Mewnfudo'r DU (UKVI), a hynny cyfwerth ag o leiaf lefel B2. Mae'r holl brofion a chymwysterau academaidd a dderbynnir i'r perwyl hwn ar gael yng nghanllaw Polisi Iaith Saesneg y Brifysgol. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob ymgeisydd nad Saesneg yw eu mamiaith ac sy'n dymuno astudio yn y Brifysgol yn y DU, yn ogystal ag ymgeiswyr rhyngwladol sy'n ceisio gwneud cais i gwrs a gyflwynir yn gyfan gwbl ar-lein.

### 30.3 Cyfweliadau derbyn

Gall y Swyddfa Ryngwladol gyfweld â phob ymgeisydd rhyngwladol o leiaf unwaith. Amcanion y cyfweliad yw asesu addasrwydd yr ymgeisydd ar gyfer eu dewis raglen, gan gyfeirio at y wybodaeth a ddarparwyd yn eu cais, gan gynnwys eu datganiad personol ac i rai graddau i asesu eu hyfedredd yn yr iaith Saesneg. Hefyd, caiff rheswm yr ymgeisydd dros ddod i astudio yn DU ei archwilio yn y cyfweliad.

Cynhelir cyfweliadau trwy feddalwedd fideo-gynadledda, cânt eu trawsgrifio ac fel arfer cedwir recordiad o'r cyfweliad.

Pan fydd ymgeisydd wedi cwblhau'r gwiriadau uchod yn llwyddiannus (academaidd, Saesneg a chyfweliad(au)), gellir cyhoeddi Llythyr Cynnig nad oes ganddo amodau academaidd i'r ymgeisydd.

### 30.4 Gwybodaeth ariannol

Rhaid i ymgeiswyr rhyngwladol wneud taliad cychwynnol i sicrhau lle i astudio gyda'r Brifysgol. Yn ogystal, mae angen tystiolaeth bellach i gadarnhau bod gan yr ymgeisydd ddigon o gyllid i dalu am weddill y ffioedd dysgu ar gyfer blwyddyn gyntaf eu hastudiaethau a'r costau byw a amodir gan UKVI. O ddilysu'r dystiolaeth a gyflwynir gan yr ymgeisydd, bydd y Brifysgol yn cyhoeddi Cadarnhad Derbyn i Astudio (CAS). Ceir manylion ynghylch tystiolaeth dderbyniol, sy'n gallu amrywio o wlad i wlad, ar wefan UKVI: www.gov.uk/government/organisations/uk-visas-and-immigration. Bydd manylion ffioedd dysgu a gofynion ariannol wedi'u manylu yn y llythyr cynnig ac maent ar gael hefyd ar wefan y Brifysgol. Rhaid i ymgeiswyr rhyngwladol dalu blaendal ffioedd dysgu cyn derbyn eu CAS. Rhif cyfeirnod unigryw yw'r CAS a gaiff ei aseinio a'i ddefnyddio gan UKVI mewn unrhyw gais dilynol gan fyfyriwr am fisa.

### 30.5 Cadarnhad Derbyn i Astudio (CAS)

Mae'r rhif CAS yn cysylltu i'r wybodaeth electronig am fyfyrwyr ar raglen astudio a ddarperir gan y Brifysgol. Mae gan bob myfyriwr a noddir gan y Brifysgol o dan y llwybr fisa myfyriwr y DU rif CAS unigryw.

Y Brifysgol sy'n cynhyrchu'r CAS trwy System Rheoli Nawdd UKVI unwaith y bydd cynnig yn ddiamod, wedi'i dderbyn yn gadarn a phan fydd pob taliad ariannol perthnasol dyledus wedi'i dderbyn.

Dylid nodi mai dim ond yn ystod y chwe mis cyn dechrau rhaglen y gellir gwneud cais am fisa myfyriwr. Er mwyn gwneud cais am fisa myfyriwr y DU a chofrestr ar ddechrau rhaglen, rhaid i fyfyrwyr gyflwyno'r holl dystysgrifau, trawsgrifiadau a dogfennaeth eraill sy'n ofynnol fel y'u pennwyd. Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan y Brifysgol, www.uwtsd.ac.uk/cy/profiad-chyfleusterau/rhyngwladol gan gynnwys gwybodaeth ynghylch mewnfudo a fisâu, teithio i PCYDDS a gofynion iaith Saesneg.

Bydd llythyrau cynnig yn cynnwys gwybodaeth briodol a nodiadau canllaw ar gyfer ymgeiswyr rhyngwladol. Tîm Gwasanaethau Mewnfudo a Chydymffurfiaeth Fisâu y Brifysgol sy'n gyfrifol am bob penderfyniad ynghylch derbyniadau ac am gynnal y gwiriadau priodol i asesu hanes mewnfudo cyn cyhoeddi CAS i ymgeiswyr lle bo raid. Partneriaid Cydweithredol sy'n gyfrifol am sicrhau bod eu sefydliad hwythau wedi cynnal pob gwiriad priodol cyn caniatáu i ymgeiswyr gofrestru ar raglenni PCYDDS.

## 31. Newidiadau i raglenni a dirwyn rhaglenni i ben

Bydd cynnig lle i astudio yn y Brifysgol wedi'i seilio ar y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael am y Rhaglen Astudio, ar y dyddiad y gwneir y cynnig. Gall ymgeiswyr ddod o hyd i wybodaeth megis y modylau craidd ac arwydd o fodylau dewisol ar dudalennau'r cwrs ar wefan y Brifysgol.

Fodd bynnag, efallai y bydd rhaid newid gwybodaeth rhaglen, gan gynnwys disgrifiad, cynnwys, dull a/neu leoliad cyflwyno a/neu amserlen rhaglen, gwasanaethau, cyfleusterau a/neu Siarter Frenhinol, Statudau, Ordinhadau, Rheoliadau a Chanllaw Academaidd y Brifysgol.

- bodloni gofynion corff achredu, proffesiynol, statudol a/neu reoleiddio;
- ymateb i arfer da'r sector neu brosesau gwella ansawdd;
- cadw rhaglenni'n gyfredol trwy ddiweddaru arferion, modylau neu feysydd astudio.

- oherwydd amgylchiadau tu hwnt i reolaeth resymol y Brifysgol, megis bod aelod allweddol o staff yn gadael y Brifysgol neu nad yw'n gallu addysgu (lle bo'r rhaglen neu fodwl yn ddibynnol ar arbenigedd yr unigolyn hwnnw;
- gwella Ystâd a Chyfleusterau'r Brifysgol ac adleoli bwriedig y man cyflwyno;
- Amgylchiadau eraill tu hwnt i reolaeth resymol y Brifysgol gan gynnwys gweithredu diwydiannol, tywydd difrifol, pandemig iechyd y cyhoedd, tân, anhrefn sifil, aflonyddwch gwleidyddol, cyfyngiadau'r llywodraeth neu bryder difrifol ynghylch trosglwyddo clefyd trosglwyddadwy a fyddai'n golygu nad yw'n ddiogel cyflwyno rhaglen.

Efallai y bydd angen gwneud newidiadau i raglenni neu fodylau lle nad yw isafswm nifer y myfyrwyr sydd eu hangen i sicrhau profiad addysgol neu brofiad myfyriwr da wedi'i gyrraedd. Sylwch y gellir tynnu rhaglenni'n ôl mewn rhai amgylchiadau eithriadol (cyn eu dechrau) am y rheswm hwn.

Os caiff rhaglen ei thynnu'n ôl neu os gwneir newidiadau sylfaenol i raglenni ar ôl i ymgeisydd derbyn cynnig am le, bydd y Brifysgol yn cymryd camau rhesymol i hysbysu'r ymgeisydd a lle bo'n berthnasol, cynnig rhaglen amgen yn y Brifysgol. Hefyd, bydd gan ymgeiswyr yr hawl i dynnu'n ôl wedi iddynt dderbyn lle.

Os bydd newid mawr i raglen, efallai bydd rhaid i ymgeiswyr rhyngwladol sydd ag angen nawdd dynnu'n ôl wedi iddynt dderbyn lle.

Ceir rhagor o wybodaeth, gan gynnwys manylion yr hyn mae'r Brifysgol yn ei ystyried yn newidiadau mawr neu fach, a sut y bydd yn cysylltu gydag ymgeiswyr mewn perthynas â'r rhain, yng Nghytundeb Myfyrwyr y Brifysgol.

## 32. Cael eich derbyn yn hwyr ar raglen astudio

Er mwyn rhoi'r cyfle i'w myfyrwyr elwa'n llawn ar brofiad myfyrwyr, a lle bo'n berthnasol, er mwyn osgoi oedi diangen wrth dderbyn cyllid trwy Gyllid Myfyrwyr, ni fydd y Brifysgol fel arfer yn caniatáu i fyfyriwr ymuno â rhaglen astudio fwy na 4 wythnos ar ôl y dyddiad dechrau swyddogol.

Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau eu bod yn darparu'r holl wybodaeth sydd ei hangen ar y Brifysgol i gefnogi eu cais. Gall y dogfennau hyn gynnwys prawf o gymwysterau, dull adnabod addas, cadarnhau statws mewnfudo ac unrhyw wybodaeth arall y bydd y Tîm Derbyn yn gofyn amdani. Fel arfer, bydd ceisiadau anghyflawn yn cael eu tynnu'n ôl gan y Tîm Derbyn, heb fod yn hwyrach na 4 wythnos ar ôl i'r rhaglen ddechrau.

Efallai na fydd derbyn ymgeisydd yn hwyr yn ddichonadwy ar gyfer rhai rhaglenni astudio. Wrth benderfynu a ddylid derbyn ymgeisydd ai peidio, bydd y cyfarwyddwr academaidd yn ystyried yr effaith y gallai dechrau'r rhaglen yn hwyr ei chael ar y myfyriwr a p'un a fyddai'n bosibl rheoli hyn yn llwyddiannus er mwyn galluogi'r myfyriwr i lwyddo ar eu dewis raglen a chyrraedd eu potensial llawn.

## 33. Mynediad Gohiriedig

Mae'r Brifysgol yn fodlon ystyried ceisiadau am fynediad gohiriedig i'r pwynt mynediad nesaf yn achos mwyafrif ei rhaglenni israddedig ac ôl-raddedig llawn amser, gan gynnwys graddau ymchwil ôl-raddedig. Rhaid i ymgeiswyr sy'n dymuno gohirio mynediad wneud cais ysgrifenedig mewn e-bost neu lythyr. Gellir dod o hyd i fanylion cyswllt yma: www.uwtsd.ac.uk/cy/ymgeisio-chyllid/sut-i-wneud-cais. Mae'r Brifysgol yn fodlon ystyried

ceisiadau ysgrifenedig a wneir ar ran ymgeiswyr nad ydynt yn gallu cyflwyno'r cais eu hunain am resymau meddygol. Caiff pob cais am fynediad gohiriedig ei ystyried yn unigol a rhoddir caniatâd ar ddisgresiwn y Brifysgol.

Ar gampws Llundain a Champws Birmingham, gall ymgeiswyr ohirio i'r pwynt mynediad nesaf yn unig heb ailymgeisio'n ffurfiol.

Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i dynnu rhaglen yn ôl o'i phrosbectws yn ystod blwyddyn academaidd, a bydd ymgeiswyr sy'n dewis gohirio eu mynediad yn cael eu hysbysu'n glir am hyn. Ni all y Brifysgol warantu na fydd ffi dysgu rhaglen yn newid yn ystod y cyfnod gohirio.

Bydd ymgeiswyr sy'n gwneud cais gohiriedig neu y mae eu lle, yn dilyn cael cynnig, yn cael ei ohirio i'r cyfnod derbyn academaidd nesaf, yn agored i dalu ffioedd sy'n berthnasol i'r cyfnod derbyn academaidd pryd maent yn cychwyn ar eu hastudiaethau, heb ystyried ym mha gylch y gwnaethant gais.

Dylai ymgeiswyr mynediad gohiriedig gyfeirio at wefan y Brifysgol am wybodaeth ddiweddar ynghylch ffioedd dysgu: [www.uwtsd.ac.uk/cy/astudio/ffioedd-chyllid/ffioedd-dysgu](www.uwtsd.ac.uk/cy/astudio/ffioedd-chyllid/ffioedd-dysgu).

## 34. Tynnu'n ôl ac ail-dderbyn

Ni chaniateir i fyfyrwyr amser llawn y Brifysgol sydd wedi cofrestru, sy'n ail-sefyll yn allanol neu sydd wedi tynnu'n ôl o'u rhaglen astudio ailymgeisio i'r Brifysgol ar gyfer yr un rhaglen neu unrhyw raglen llawn amser arall sydd i fod i ddechrau yn yr un flwyddyn academaidd.

Pe baent yn dymuno, gallai ymgeiswyr a oedd wedi cofrestru ar raglenni Tystysgrif Addysg Uwch ac a dynnodd yn ôl eu hunain, wneud ail gais i ddechrau eu cwrs o'r dechrau (os na wnaethant ennill credydau), neu os enillasant rai credydau, gallant wneud cais am gydnabyddiaeth o ddysgu ardystiedig blaenorol hyd at uchafswm o 40 credyd.

Fel arfer, ni fydd y Brifysgol yn ystyried aildderbyn myfyrwyr a dynnwyd yn ôl o'u cwrs oherwydd diffyg presenoldeb a/neu ddiffyg ymgysylltu academaidd/dilyniant tan ddwy flynedd ar ôl iddynt gael eu tynnu'n ôl, ac ar gyfer y man derbyn nesaf sydd ar gael, oni bai bod rhesymau eithriadol dros beidio ag ymgysylltu. Fel arfer, ni fydd y Brifysgol yn caniatáu i fyfyriwr gael ei aildderbyn o dan y cyfryw amodau fwy na ddwywaith. Caniateir i fyfyrwyr sy'n penderfynu tynnu eu hunain yn ôl ailgyflwyno cais i'r Brifysgol yn y flwyddyn academaidd sy'n dilyn y flwyddyn y gwnaethant dynnu'n ôl.

## 35. Gwirio dogfennau a thwyll

Os gwelir bod cais a/neu ddogfennau ategol lle bo'n briodol yn cynnwys gwybodaeth anwir adeg ei ddilysu neu wedyn, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i beidio â chofrestru'r ymgeisydd neu i ofyn i'r myfyriwr dynnu'n ôl o'r rhaglen astudio. Os datgelir twyll mewn perthynas â chais ar ôl derbyn y myfyriwr, delir â'r mater o dan y Polisi Camymddwyn Anacademaidd. Os canfyddir bod datganiadau personol ymgeiswyr yn debyg i'w gilydd o dan Wasanaeth Canfod Tebygrwydd UCAS, neu gan y Tîm Gwasanaethau Mewnfudo a Chydymffurfiaeth Fisâu yn achos ymgeiswyr rhyngwladol, bydd yn ofynnol i'r ymgeiswyr hynny gyflwyno datganiad personol newydd cyn i'w cais gael ei ystyried neu bydd eu cais yn cael ei dynnu'n ôl.

## 36. Y weithdrefn apeliadau a chwynion

Mae'r Brifysgol yn ystyried pob ymgeisydd yn deg ac yn unol â'r egwyddorion a amlinellwyd yn y polisi. Fodd bynnag, mae'r Brifysgol yn cydnabod y gall fod achlysuron pan fydd ymgeiswyr yn gwneud cais am apêl (adolygiad o'u cais), neu'n gwneud cwyn am y broses dderbyn. Mae'r trefniadau sydd ar waith er mwyn i ymgeiswyr allu cael adborth ynghylch cais aflwyddiannus, apelio ynghylch penderfyniad yn ymwneud â dethol myfyrwyr neu gwyno ynghylch y broses dderbyn wedi'u hamlinellu yn y Polisi a Gweithdrefnau ar gyfer Adborth, Apeliadau a Chwynion ynghylch Derbyniadau, sydd ar gael yma: www.uwtsd.ac.uk/cy/amdanom/llywodraethu-rheolaeth/strategaethau-pholisiau/y-polisi-derbyn-thelerau-ac-amodau-i.

## 37. Defnydd y Brifysgol o ddata ymgeiswyr

Bydd y wybodaeth sydd mewn cais yn cael ei defnyddio'n bennaf at ddibenion prosesu'r cais a chreu cofnod y myfyriwr. Caiff y wybodaeth hon hefyd ei defnyddio i wneud adroddiadau statudol i gyrff megis yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA).

Caiff yr holl ddata ei gadw a'i brosesu'n unol â gofynion GDPR y DU a Deddf Diogelu Data 2018.

Fel arfer, bydd ceisiadau'n gyfrinachol rhwng yr ymgeisydd, staff priodol y Brifysgol (a sefydliadau partner cyfranogol lle bo'n berthnasol) ac yn achos ymgeiswyr Rhyngwladol, Uned Fisâu a Mewnfudo'r DU y Swyddfa Gartref. Mewn rhai achosion, caiff data ceisiadau ei rannu'n allanol hefyd, lle bo rhaglenni wedi'u datblygu mewn cydweithrediad â sefydliadau trydydd parti a lle bo gan staff nad ydynt yn gweithio i'r Brifysgol ran i'w chwarae yn y broses o ddethol myfyrwyr. Er mwyn canfod ac atal twyll, mae gan y Brifysgol hefyd yr hawl i rannu gwybodaeth gyda sefydliadau allanol fel yr Heddlu, awdurdodau lleol, cyrff arholi neu ddyfarnu, a'r Adran Gwaith a Phensiynau a'i hasiantaethau.

Ceir gwybodaeth lawn am y ffordd y mae'r Brifysgol yn casglu a defnyddio data personol darpar fyfyrwyr, a'r amserlen gadw yma: Datganiad Preifatrwydd Ymgeiswyr.

Rheoli fersiynau dogfennau

| Rhif y Fersiwn: | Rheswm dros newid: | Awdur: | Dyddiad y newid: |
|---|---|---|---|
| 1.1 | Adolygiad Blynyddol – drafft cychwynnol i'w ystyried gan y Cyfarwyddwr Marchnata a Chyfathrebu. | Gemma Green, Uwch Swyddog Derbyn/ Elin Bishop, Pennaeth Gweithredol y Gofrestrfa | 13/08/25 |
| 1.2 | Fersiwn derfynol – mân newidiadau wedi'u cymeradwyo gan y Cyfarwyddwr Marchnata a Chyfathrebu. | Gemma Green, Uwch Swyddog Derbyn/ Elin Bishop, Pennaeth Gweithredol y Gofrestrfa | 03/09/25 |
| 1.3 | Adolygiad blynyddol – drafft cychwynnol i'w ystyried gan yr Pwyllgor Profiadau Myfyrwyr. | Gemma Green, Uwch Swyddog Derbyn/ Matthew Curtis, Rheolwr Derbyn/ Andrew Carr, Pennaeth Recriwtio Myfyrwyr ac Ehangu Mynediad | 07/05/26 |
| 2.0 | Fersiwn derfynol wedi'i chymeradwyo gan yr Pwyllgor Profiadau Myfyrwyr. | Gemma Green, Uwch Swyddog Derbyn/ Matthew Curtis, Rheolwr Derbyn/ Andrew Carr, Pennaeth Recriwtio Myfyrwyr ac Ehangu Mynediad | 21/05/26 |

Statws presennol y Polisi: Cymeradwywyd

Mae'r Polisi'n berthnasol i'r canlynol: AU

Dyddiad ei gadarnhau: 21/05/2026

Dyddiad dod i rym: 21/05/2026

I'w gyhoeddi: ar wefan PCYDDS

---

***Cymeradwyo***

*Caiff y polisi ei ystyried yn ffurfiol a'i gymeradwyo'n unol â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor a amlinellir yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd.*

*Os bydd y polisi'n effeithio ar staff, dylid ceisio cyngor gan AD o'r dechrau i ganfod a oes angen ymgynghori â'r JCC. Bydd AD hefyd yn rhoi cyngor ar y cyfnod mwyaf addas i ymgynghori â'r JCC ac ynghylch p'un a oes angen cymeradwyaeth y Cyngor*

*Rhaid cynnwys y canlynol gyda PHOB polisi a gyflwynir i'w gymeradwyo:*

- *Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb*
- *Asesiad o’r Effaith Sefydliadol*
- *Asesiad o’r Effaith ar Ddiogelu Data*

*Cyn ei gyflwyno i’r pwyllgor, gofynnir i awduron ymgynghori â’r Tîm Polisi a Chynllunio a fydd yn gwirio bod y ddogfen yn cydymffurfio â gofynion y Brifysgol. Bydd y Tîm Polisi a Chynllunio’n cwblhau’r adran isod:*

---

***I’w gwblhau gan ysgrifennydd y pwyllgor***

*Ticiwch i gadarnhau’r canlynol:*

*Mae Asesiad o Effaith Sefydliadol wedi’i gwblhau* ☒

*Mae Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb wedi’i gwblhau* ☒

*Mae Asesiad o’r Effaith ar Breifatrwydd wedi’i gwblhau* ☒

*Materion mae angen eu hystyried gan y pwyllgor cymeradwyo:* Ni nodwyd dim.

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David